



Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle - Cyflwyno Ar-lein (Rhan-Amser)

Mae'r cwrs hwn yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr o iechyd a diogelwch yn y gweithle o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch y DU. Bydd y cwrs hwn o fudd i bob unigolyn a allai fod yn gweithio o fewn rôl iechyd a diogelwch.

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Cosbau a gorfodi
- Ergonomeg a ffactorau dynol
- Cost Iechyd a Diogelwch gwael
- Manteision Iechyd a Diogelwch da
- Asesiadau risg
- Hierarchaeth rheolaeth
- Ffactorau amgylcheddol
- Ffactorau dynol
- Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)
- Diogelwch tân a chodi a chario
- Sylweddau peryglus
- Arddangos offer sgrin
- Arwyddion diogelwch yn y gweithle
- Cymorth cyntaf a RIDDOR

Os ydych chi dros 19 oed ac yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd gallech fod yn gymwys ar gyfer cwrs AM DDIM o dan gyllid Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) Llywodraeth Cymru. Gallwn drafod cyllid gyda chi ar ymholiad.

Gofynion Mynediad

Mae'r cymhwyster hwn ar gael i ddysgwyr 18 oed neu hyn. Rhaid i ddysgwyr feddu ar y sgiliau llythrennedd i allu darllen a hunandysgu'r llawlyfr cyfeirio ac adnoddau ychwanegol.

Bydd angen mynediad i gyfrifiadur gyda chysylltiad rhyngwyd ar y dysgwr er mwyn cael mynediad i'r adnoddau



GRŴP COLLEGAU **NPTC** GROUP OF COLLEGES
Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

dysgu o bell a chyfathrebu â'r Hyfforddwr/Aseswr.

Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at unigolion sy'n gweithio o fewn rôl iechyd a diogelwch ac sy'n dymuno dysgu neu ddatblygu eu gwybodaeth am iechyd a diogelwch.

Asesiad

Asesir trwy drafodaeth broffesiynol

DULL ASTUDIO

SC

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS

<1D